# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 6 Mawrth 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(118)v2

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr ymchwiliad ynghylch sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru (60 munud)

**NDM5178 David Melding (Canol De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i awdurdodaeth ar wahân i Gymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Rhagfyr 2012.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

### 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

**NDM5180 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod yr ysgogiadau economaidd ar gael i Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud gwahaniaeth sylweddol i economi Cymru.

2. Yn gresynu mai Gwerth Ychwanegol Crynswth Cymru yw'r isaf o blith gwledydd y DU.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei strategaeth ar gyfer datblygu economaidd yng ngoleuni'r pryderon a godwyd yn adroddiad Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd 'Small Businesses in Priority Sectors' ynghylch y dull gweithredu ar sail sectorau.

4. Yn credu bod yn rhaid i'r Gweinidog sefydlu targedau clir a mesuradwy ar gyfer dangosyddion economaidd allweddol i hybu cynnydd economaidd a chaniatáu monitro'r cyflenwi.

Gellir gweld 'Small Businesses in Priority Sectors' drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.fsb.org.uk/policy/rpu/wales/images/cu%20fsbw%20small%20businesses%20in%20priority%20sectors.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1 dileu 'yr' cyn 'ysgogiadau economaidd' a chynnwys ar ddiwedd y pwynt: 'er gwaethaf y ffaith bod nifer yn parhau i fod o dan reolaeth Llywodraeth y DU'

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddechrau pwynt 2:

'Yn croesawu'r cynnydd sy'n cael ei wneud i gynyddu cystadleurwydd ar draws y DU ar ôl i'r DU godi yn ddiweddar o'r degfed safle i'r wythfed safle ym Mynegai Cystadleurwydd Byd-Eang Fforwm Economaidd y Byd 2012-2013, ond'

Gellir gweld Mynegai Cystadleurwydd Byd-Eang Fforwm Economaidd y Byd 2012-2013 drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www3.weforum.org/docs/WEF_GlobalCompetitivenessReport_2012-13.pdf

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2: 'ond yn gwrthod derbyn bod y sefyllfa hon yn anochel'

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r gefnogaeth a gynigir ar gyfer masnacheiddio eiddo deallusol academaidd o bob Prifysgol yng Nghymru, i sicrhau bod ein hentrepreneuriaid yn cael y cyfle gorau i ddatblygu busnesau ffyniannus a chynhenid yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.

**5. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM5179 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn:

1. Yn cydnabod effaith gymhleth ond negyddol yn bennaf diffyg twf economaidd a newidiadau i fudd-daliadau lles ar fenywod a theuluoedd yng Nghymru fel y nodwyd yn adroddiad Sefydliad Bevan 'Women, work and the recession in Wales';

2. Yn nodi rhybudd Sefydliad Jospeh Rowntree fod Cymru yn wynebu degawd o dlodi;

3. Yn credu bod Llywodraeth y DU wedi dilyn y llwybr economaidd anghywir ers 2010, gan roi menywod a theuluoedd mewn perygl; a

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu argymhellion Cuts Watch Cymru i liniaru ar effeithiau newidiadau mewn budd-daliadau tai i deuluoedd ac i ddatblygu cynllun i gefnogi menywod ifanc i gyflogaeth briodol sy'n talu'n dda er mwyn diwallu eu hanghenion.

Gellir gweld adroddiad Sefydliad Bevan drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.bevanfoundation.org/publications/women-work-and-the-recession-in-wales/

Gellir gweld argymhellion Cuts Watch Cymru drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://cutswatchcymru.wordpress.com/2013/02/22/cuts-watch-cymru-lauch-housing-action-paper/

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod y camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y system budd-daliadau gan sicrhau na all neb ennill mwy ar fudd-daliadau nag y mae teulu cyffredin yn ei ennill drwy fynd allan i weithio.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2: 'ac yn nodi ymhellach y rhwystrau at waith a nodwyd yn flaenorol gan Sefydliad Joseph Rowntree a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r ysgogiadau economaidd sydd ganddi i ysgogi economi Cymru a chefnogi teuluoedd Cymru'

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r gwaith y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud i sicrhau bod mwy o fenywod nag erioed o'r blaen mewn gwaith ar draws y DU gyda chwarter miliwn yn fwy o fenywod mewn gwaith nag a oedd adeg yr etholiad diwethaf.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod Llywodraeth y DU yn cymryd y camau angenrheidiol i leihau'r diffyg strwythurol ac yn helpu teuluoedd gyda chostau byw drwy gymryd camau fel torri'r dreth incwm i 25 miliwn o bobl.

**Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn credu bod Llywodraeth Cymru a rhai awdurdodau lleol wedi aros tan yn bryderus o hwyr i baratoi tenantiaid ar gyfer newidiadau i'r budd-dal tai ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar frys i fynd i'r afael â hyn.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5175 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Cefnogi'r economi wledig.

Mae'r ddadl yn ymwneud â datblygu rhwydwaith bancio gwledig.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2013